## Pwyllgor Diwylliant - CC-19-01(p.2)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 5 Rhagfyr 2001 |
| **Amser:** | 9.00am-12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol |

# Adroddiad Cynnydd gan Gyngor Celfyddydau Cymru

***Rhagarweiniad***

1. Mae'r Pwyllgor yn llawn gynefin â chanlyniadau Adroddiad Wallace, a'r Cynllun Gweithredu dilynol a gynhyrchwyd gan Anthony Everitt ac Anne Twine. Mae Cyngor y Celfyddydau bellach wedi cychwyn ar broses helaeth o newidiadau i roi ar waith y Cynllun Gweithredu. Bwriad yr adroddiad yma yw rhoi diweddariad cryno o'r sefyllfa fel y mae hi.
2. Mae wedi'i gategoreiddio'n nifer o benawdau sy'n ffurfio rhan o'r cynllun project a ddyfeisiwyd gan y Cyngor i reoli'r broses o roi ar waith. Dyma nhw:-

- adeiladwaith staffio newydd;
- strategaeth bum mlynedd datblygu'r celfyddydau;
- cynlluniau grantiau newydd;
- cytundebau ariannu refeniw;
- cyfathrebu;
- datganoli i swyddfeydd lleol, &
- trefniadau dros dro.

***Adeiladwaith staffio newydd***

1. Mae'r broses o slotio staff i swyddi yn yr adeiladwaith newydd i bob pwrpas wedi'i wneud. Mae hyn wedi rhoi rhwydd hynt i ganfod y swyddi gwag, ac mae'r broses o recriwtio bellach ar y gweill. Bydd y Pwyllgor yn gwybod bid siwr i Peter Tyndall ymgymryd â'i ddyletswyddau fel Prif Weithredydd ddechrau mis Hydref, ac i Frances Medley gael ei phenodi'n Ddirprwy Brif Weithredydd. Mae hithau wedi ymgymryd â'i dyletswyddau newydd.

2. Penodwyd pobl hefyd i swyddi Cyfarwyddwr Cyllid a Gweinyddu a Chyfarwyddwr Gogledd Cymru. Hysbysebir swydd Cyfarwyddwr, Canolbarth & Gorllewin Cymru eto ym mis Ionawr. Mae swyddi allweddol eraill yn y rheng nesaf, gan gynnwys Pennaeth Cyfathrebu a Phenaethiaid Cyllid, TG a Phersonél & Hyfforddiant wedi cael eu llenwi trwy gyfuniad o slotio i mewn a recriwtio allanol. Mae recriwtio i'r swyddi sy'n dal heb eu llenwi ar y gweill fyth.

5. Mae'r trawsnewid i'r adeiladwaith staffio newydd i fod i ddigwydd ym mis Chwefror, ond mae rheolwyr allweddol yn ymgymryd â'u dyletswyddau newydd cyn hyn er mwyn gwneud yn siwr fod y trawsnewid yn cael ei reoli'n iawn.

***Strategaeth bum mlynedd datblygu'r celfyddydau***

6. Hon fydd dogfen strategol allweddol y Cyngor, a bydd yn cynnwys cyfres o gynlluniau gweithredu â chanddyn nhw thema, wedi'u seilio'n bennaf ar Y Celfyddydau a chynlluniau croes-dorri fydd yn cynnwys un o bob un o ranbarthau Cyngor y Celfyddydau, a cheinciau allweddol eraill gan gynnwys cyfleoedd cyfartal. Dyfeisiwyd ffordd gynhwysol o fynd ati ar gyfer ei ddatblygu, ac mae'r elfen gychwynnol, set o 18 o gyfarfodydd ledled Cymru, ar y gweill. Mae'r cyfarfodydd yma wedi'u anelu at gymuned y celfyddydau a phartneriaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol ac ASPBau eraill. Mae i bob cyfarfod ei thema sef un o'r cynlluniau gweithredu sydd yn yr arfaeth.
7. Mae nifer fawr yn dod i'r cyfarfodydd, ac maen nhw'n ysgogi trafodaeth gadarnhaol iawn ynghylch blaenoriaethau yn y dyfodol o ran y Celfyddydau yng Nghymru. Mae'r elfennau perthnasol o Dyfodol Creadigol yn cael eu porthi i bob cyfarfod, gan y bydd y cynlluniau gweithredu canlynol yn cwmpasu'r tasgau hynny a ganfuwyd ar gyfer Cyngor y Celfyddydau o fewn y Cynlluniau Gweithredu.
8. Mae copi o'r dogfennau ymgynghori ynghlwm â'r adroddiad, a bydd y Cyngor yn mawrbrisio barn Aelodau'r Pwyllgor, pa un ai ar y cyd yng nghyfarfod y Pwyllgor, neu ynteu fel unigolion.
9. Gwahoddwyd hefyd unigolion neu gyrff y mae ganddyn nhw ddiddordeb i gyfrannu mewn ffyrdd eraill, pa un ai yn ysgrifenedig neu drwy'r safwe, neu drwy drafodaethau â staff Cyngor y Celfyddydau.
10. Unwaith y bydd y cyfarfodydd wedi'u terfynu, bydd y Cyngor yn cynhyrchu drafft o'r Strategaeth, a bydd yn ymgynghori unwaith eto'n helaeth ynghylch y drafft yma. Bydd y Cyngor yn darparu rhestr gyflawn o'r holl bwyntiau a godir yn ystod yr ymgynghori, ac yn dweud a ydi wedi mynd i'r afael â nhw ai peidio, gan gynnig eglurhad mewn achosion lle na fu hyn yn bosib.

***Cynlluniau grantiau newydd***

11. Elfen allweddol arall o’r ad-drefnu ydi diwygio’n gyfan gwbl gynlluniau grantiau’r Cyngor. Y rhain ydi (ac eithrio un), y trefniadau o ran ariannu projectau cyfyngedig gan amser, yn hytrach na chymorth refeniw y cyfeirir ato’n ddiweddarach. Y bwriad ydi symleiddio’n fawr y broses o roi grantiau, ac o ddal hyn mewn cof, bydd y nifer o gynlluniau yn gostwng o dros deugain i lai nag ugain.
12. Mae’r cyfarfodydd ymgynghori sydd bellach ar y gweill yn cael eu defnyddio hefyd i wahodd sylwadau ynghylch y cynlluniau drafft, ac unwaith eto mae copi ynghlwm i roi cyfle i Aelodau’r Pwyllgor leisio’u barn.

13. Yr un eithriad i natur ariannu-fesul-project y cynlluniau ydi’r bwriad o gyflwyno set newydd o drefniadau i roi cyfle i gyrff wneud cynnig am ddod yn gleientiaid refeniw. Doedd y broses a arweiniai cyrff yn i fod yn gleientiaid refeniw yn y gorffennol ddim yn agored, felly mae’r cynigion yma’n nodi newid pwysig.
14. Elfen newydd arall ydi’r cynnig i ganiatáu defnyddio arian Loteri ar gyfer grantiau i artistiaid unigol, sydd hyd yn hyn wedi cael croeso cynnes iawn. Mae gan y cynllun meithrin galluoedd, sydd wedi’i gynnwys hefyd gynigion o ran cyflwyno trefniadau sefydlogi. Yn dilyn yr ymarfer ymgynghori, y bwriad ydi i’r trefniadau newydd fod yn eu lle o 1af Ebrill 2002.

***Cytundebau ariannu refeniw***

15. Elfen graidd arall o’r newid ydi symud i gytundebau ariannu refeniw tair blynedd. Cynorthwyir hyn yn sylweddol gan y grant mwy a gynhwyswyd o fewn cyllideb y Cynulliad, ac a groesawir yn gynnes gan y Cyngor fel cyfle pwysig i gyfnerthu ac i adeiladu ar gyfer dyfodol y celfyddydau yng Nghymru. Mae’r cyfuniad o’r cynnydd a chyhoeddi Dyfodol Creadigol wedi rhoi ynni i’r broses o newid sydd eisoes ar y gweill yn y Cyngor.
16. Mae’r Cyngor yn datblygu’i gyllideb i adlewyrchu blaenoriaethau Dyfodol Creadigol a chanlyniadau’r broses o ymgynghori ynghylch y Strategaeth Bum Mlynedd. Gofynnwyd i gleientiaid refeniw ddatblygu senarios i adlewyrchu codiadau arian posib, a bydd cyd-drafod â chleientiaid unigol yn cychwyn yn y Flwyddyn Newydd. Mae yna bellach gyfle gwirioneddol i gyflwyno sefydlogrwydd ac i roi cyfle i Gwmnïau Celfyddydau Cymru ganolbwyntio’u hynni ar gynnyrch artistig, ac nid ar y frwydr barhaol wanychol i oroesi’n ariannol.
17. Mae’r Cyngor wedi mynegi’i ymroddiad i gyhoeddi pob dyraniad erbyn Mai 2002, ond gwnaiff hyn yn gynharach os bydd modd o gwbl. Mae’r Cyngor yn ystyried cynnig i’r holl gleientiaid refeniw godiad chwyddiannol o 3% i ddechrau, i’w galluogi nhw i symud yn eu blaenau’n hyderus tra terfynir trafodaethau ynghylch lefelau ariannu uwch.

***Datganoli i swyddfeydd lleol***

18. Mae'r adeiladwaith newydd yn cynnwys elfen sylweddol fwy o ddatganoli i'r tri rhanbarth, ac mae'r gwaith ar baratoi'r trefniadau manwl ar y gweill. Mae trafodaethau'n digwydd trwy'r pwyllgorau rhanbarthol, a thrwy gyfarfodydd ym mhob rhanbarth i ddatblygu'u cynlluniau gweithredu.
19. Mae WLGA wedi enwebu cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol ar gyfer pob Pwyllgor, ac mae trafodaethau'n dal i fynd ymlaen ar ddatblygu trefniadau i gefnogi'u hymglymiad ac i gynnal cyfathrebu da â'r holl awdurdodau ym mhob rhanbarth.
20. Mae gwaith ar ddatblygu dulliau gweithredu ar gyfer y swyddfeydd lleol wedi dechrau, a dylid ei gwblhau yn y Flwyddyn Newydd.

***Cyfathrebu***

21. Mae strategaeth gyfathrebu newydd yn cael ei pharatoi, i fynd i'r afael â chyfathrebu mewnol ac allanol ill dau. Mae safwe newydd yn cael ei pharatoi, ond yn y cyfamser fe'i defnyddir i wneud dogfennau ymgynghori a gwybodaeth yn hygyrch yn eang.
22. Mae diweddariadau ar yr ad-drefnu, gan gynnwys arweiniad iaith syml, wedi cael eu rhyddhau, a bydd mwy yn dilyn i wneud yn siwr fod staff, partneriaid allweddol a chymuned y celfyddydau yn ymwybodol o'r newidiadau a'r cynnydd hyd yn hyn.

***Trefniadau trawsnewidiol***

23. Mae cyflwyno'r adeiladweithiau staffio a'r trefniadau ariannu newydd yn glynu i amserlen sy'n gofyn llawer, ac mae gofyn i'r paratoadau sicrhau cynnal gwasanaeth mewn mannau allweddol, er enghraifft pan fydd yr adeiladwaith staff yn newid ym mis Chwefror, a phan gyflwynir y trefniadau newydd o ran neilltuo a monitro grantiau o fis Ebrill. Ffurfiwyd Tîm Rheoli Projectau, a pharatowyd cofrestr risg. Canfuwyd yr unigolion fydd yn gyfrifol am bob elfen o'r broses o newid, ac maen nhw wedi paratoi dadansoddiad manwl o'r cerrig milltir allweddol. Canfuwyd dolennau cyswllt a mannau dibynnu rhwng y tasgau, a rhoddir yn eu lle strategaethau rheoli'r risgiau.
24. Un o'r risgiau allweddol a ganfuwyd ydi o ran y broses o neilltuo a monitro grantiau, a recriwtir ymgynghorwyr allanol i gynnig cyngor annibynnol ac i ddilysu datblygiad y systemau newydd.
25. Cynhyrchwyd arweiniad i'r cynlluniau grantiau sy'n dal i weithredu tan fis Mawrth 3ain 2002, ac fe'i dosbarthwyd yn eang i ymgeiswyr posib.

***Casgliadau***

26. Mae hwn yn gyfnod sy'n gofyn llawer gan Gyngor y Celfyddydau, ond mae'n gyfnod

aruthrol o gyffrous. Bydd y Cyngor y Celfyddydau sy'n dod i'r fei yn fwy dynamig ac yn dwyn pobl i mewn fwy, yn ogystal â bod yn fwy atebol. Bydd y broses o newid yn cymryd amser, a bydd angen ei adolygu'n barhaol er mwyn sicrhau'i fod yn trosglwyddo'i amcanion, ond dylai gynnig sylfaen i sicrhau bod y Celfyddydau yng Nghymru yn cael Dyfodol Creadigol.

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

**Tachwedd 2001**

## ATODIAD A

## FFORMAT Y CYNLLUNIAU GWEITHREDU DRAFFT

| | |
|---|---|
| Trefn Pwysigrwdd | Fe fydd pob Cynllun Gweithredu yn cynnwys nifer o Dasgau wedi eu cynllunio i gyflawni un o flaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau. Rhestrir rhain yn nhrefn pwysigrwydd. Fe fydd hyn yn galluogi CCC i benderfynnu yn hawdd ar y Tasgau i'w hepgor os nad oes digon o adnoddau cyllidol neu ddynol |
| Blaenoriaeth | Yn ei strategaeth datblygu'r celfyddydau fe fydd CCC yn dewis ychydig o Flaenoriaethau lefel uchel (yn bresennol pobl ifanc, addysg a hyfforddiant a chyfleon cyfartal) a fydd yn penderfynnu cyfeiriad y gwaith tros gyfnod y strategaeth.<br><br>Yn gysylltiedig â phob Blaenoriaeth, fe fydd Targed neu Dargedau cyffredinol a fydd yn cael eu defnyddio i weld os yw'r flaenoriaeth wedi ei gweithredu |

| | |
|---|---|
| Blaenoriaethau celfyddydol/ lleol/<br><br>traws-bwnc | Fe fydd pob Blaenoriaeth yn cael ei addasu (e.e. i gynyddu nifer y darllenwyr mewn llenyddiaeth) ar gyfer pob cynllun gweithedu celfyddydol, lleol neu draws-bwnc (e.e. addysg) |
| Materion Allweddol | Mae'r adran hon yn crynhoi, mewn ffurf pwyntiau bwled, tystiolaeth berthnasol a ddaeth o'r asesiad anghenion. Ni ddylid cynnwys unrhyw beth nad yw'n cyfeirio at y Tasgau ayyb. |
| Tasg(au) | Gweithred benodol ydi Tasg sydd wedi ei gynllunio i gyflawni Blaenoriaeth. Yn gysylltiedig â'r Dasg, fe fydd Targedau a fydd yn cael eu defnyddio i weld os yw'r Dasg wedi ei chwblhau ar lefel dderbyniol o berfformiad. Fe fyddent yn cynnwys Amserlen, Adnoddau, a Chysylltiadau gyda anghenion cynlluniau eraill, fel yr esbonir isod. |
| Amserlen | Fe fydd y Tasgau yn cael eu hamserlenu tros gyfnod y strategaeth datblygu'r celfyddydau |
| Adnoddau | Fe fydd yr adnoddau, rhai cyllidol a dynol, a fydd eu hangen i gyflawni Tasg, yn cael eu disgrifio. |
| Partneriaeth | Y bobl eraill a fydd yn gweithio gyda CCC ar y dasg |
| Cysylltiadu gyda cynlluniau gweithredu eraill | Fe fydd cysylltu â'r un Dasg neu gyda Tasgau tebyg mewn cynlluniau gweithredu arbennigol neu leol eraill yn hanfodol i sicrhau bod cynllun datblygu'r celfyddydau yn gyson yn ei gyfanrwydd. |
| Canlyniad (Tasg) | Cyflawni y Dasg. Adnoddau, Partneriaeth a Chysylltiad â Chynllluniau Eraill. Fe fydd y canlyniad yma yn disgrifio os yw'r Dasg wedi ei chyflawni ai pheidio. |
| Canlyniad<br><br>(Baenoriaethau) | Cyfraniad y Dasg i Flaenoriaeth. Fe fydd y canlyniad yma yn disgrifio effaith y Bwriadau, wedi iddynt eu cyflawni – hynny ydi, fe fydd yn dangos sut y byddent wedi cyfrannu i gyrhaeddiad y Flaenoriaeth. |

## ATODIAD B

## Strategaeth i Ddatblygu’r Celfyddydau ar gyfer Cymru

Nodyn Blaengyfeirio ar gyfer Cyfarfodydd Agored yn Nhachwedd a Rhagfyr

Cefndir

Argymhellodd ‘Cynllun Gweithredu ar gyfer Ailstrwythuro’ yr Athro Everitt y dylid cael strategaeth i ddatblygu’r celfyddydau dros bum mlynedd yn barod erbyn 2002-07. Fe argymhellodd y dylid llunio’r strategaeth ar gyfres o gynlluniau gweithredol penodol arbenigol/ pynciol ac mae’r cyfarfodydd agored hyn yn rhan o’r broses o ddatblygu’r cynlluniau gwaith hyn.

## Cyfarfodydd Agored

Mae cyfres o gyfarfodydd agored yn cael eu cynnal i drafod y datblygiadau fydd yn angenrheidiol mewn meysydd arbennig dros y pum mlynedd nesaf. Mae’r gwaith cychwynnol wedi dechrau ar y cynlluniau gweithredu ac fe drafodir hyn yn y cyfarfodydd agored. Yn gynwysedig yn y papur blaengyfeirio hwn mae’r datblygiadau sy’n cael eu hystyried ar gyfer pob maes ynghyd â chopi o gynllun gweithredu gwag i roi syniad i chi ynglyn â sut y caiff y cynlluniau eu strwythuro.

Mae’r cynlluniau agored yn rhan o weithred CCC i agor y broses strategaeth a chynllunio. Nid hon yw’r broses ymgynghori ffurfiol ar y strategaeth – bydd hyn yn digwydd unwaith y bydd y strategaeth gyfan wedi’i chwblhau yn ystod y gwanwyn (Chwefror- Mawrth 2002).

Amcan y cyfarfodydd agored yw rhoi cyfle i chi drafod anghenion datblygu’r meysydd sydd o ddiddordeb i chi. Bydd y cynlluniau gweithredu’n sylfaen i’r strategaeth ond yn sefyll ar eu pennau’u hunain fel cynllun cydlynol o anghenion sector neu faes arbennig yn ystod y cyfnod 2002-07. Bydd y cynlluniau gweithredu hyn yn ffurfio rhaglen waith y swyddogion arweiniol arbenigol. Fe nodir swyddog arweiniol arbenigol ar gyfer pob cynllun gweithredu.

Tasgau’r cyfarfodydd agored yw:

- ystyried argymhellion yr arolwg strategol lle bo un ar gael (orielau/gwyliau/cyrff cynhwysfawr neu ‘ymbarél’/cyrff strategol ac archwiliad o fannau perfformio). Mewn gwirionedd mae’r argymhellion yn holi’r cwestiynau y bydd angen i’r strategaeth a’r cynlluniau gweithredu eu hateb.

- ystyried cynigion y cynllun gweithredu yng nghyd-destun argymhellion yr arolwg strategol (lle bo un) ac anghenion y sector.

- yn ddelfrydol dylai'r cyfarfod agored geisio llunio rhestr o ddatblygiadau wedi'u blaenoriaethu fydd yn angenrheidiol dros y cyfnod 2002-07.

Fe gaiff yr adborth o'r cyfarfodydd agored ei ddefnyddio i adolygu ac ail-lunio'r cynlluniau gweithredu. Cyhoeddir y cynlluniau gweithredu hyn ar y wefan yn y lle cyntaf a'u cylchredeg i'r bobl a ddaeth i'r cyfarfodydd agored. Fe gedwir at y broses hon ar gyfer y cyfarfodydd agored ar faterion unigol/arbenigol ym mis Tachwedd a'r cyfarfodydd ynglyn â'r blaenoriaethau a'r cynllun gweithredu rhanbarthol ym mis Rhagfyr.

## Yr Agenda ar gyfer pob cyfarfod agored

Bydd pob cyfarfod agored yn dechrau am 10.30 a bydd coffi ar gael o 10 am. Dechreuir y cyfarfod ag uwcholwg o'r broses strategol gan Frances Medley (Dirprwy Brif Weithredwr) a dilynir hyn gan gyflwyniad o'r cynlluniau newydd sydd ar hyn o bryd yn destun ymgynghori.

Bydd rhan nesa'r cyfarfod yn trafod y pwnc penodol fydd ar yr agenda ar gyfer y dydd. Gan hynny fe fydd y drafodaeth yn symud ymlaen at ganlyniadau arolwg strategol os ydych wedi dod i gyfarfod ynglyn ag orielau/ celfyddydau a chrefftau gweledol, gwyliau/ cerddoriaeth, archwilio mannau perfformio/ dawns/ drama/ cyflwyno a marchnata neu'r cyfarfod ynglyn â chyrff strategol a chynhwysfawr ('ymbarél'). Yr adolygiadau strategol fydd yn gosod y cyd-destun ac yn gofyn y cwestiynau y mae angen i'r cynlluniau gweithredu a'r strategaeth eu hateb. Yna yr eitem nesaf ar yr agenda fydd ymdrin â'r cynllun gweithredu sy'n ymwneud â'r maes penodol yr ydych wedi dod i'w drafod.

Bydd agenda penodol i'r dydd yn cael ei ddosrannu ar y dydd a bydd yn dilyn y fformat amlinellwyd uchod.

## Cynlluniau Gweithredu

Mae CCC yn gweithio ar hyn o bryd ar y cynlluniau gwaith dilynol. Maen nhw ar wahanol gamau o ddatblygiad; efallai na fydd rhai'n tyfu i fod yn gynlluniau ar eu pennau'u hunain unwaith y rhoddir y strategaeth at ei gilydd. Efallai y bydd angen datblygu rhai yn ystod blwyddyn gynta'r strategaeth.

## Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol

| CYNLLUN GWAITH | SWYDDOG ARWEINIOL |
|---|---|
| Y Gogledd | Sian Tomos |
| Y De | I'w enwi (Frances Medley)* |
| Y Canolbarth a'r Gorllewin | I'w enwi (Frances Medley)* |

- Y swyddog arweiniol fydd y cyfarwyddwr lleol unwaith y bydd wedi'i benodi ac yn ei swydd

Blaenoriaethau'r Cynlluniau Gweithredu ( Mae'r Cyngor wedi gosod y rhain fel blaenoriaethau gweithredu ac unwaith y bydd y strategaeth wedi'i chwblhau fe fyddir yn eu hadolygu.)

| CYNLLUN GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL |
|---|---|
| Y Celfyddydau a Phobl Ifanc<br><br>Ar hyn o bryd y cynllun gweithredu ar gyfer hyn yw cynllun Tasglu'r Celfydyddau a Phobl Ifanc ond mae'r cynlluniau gweithredu a restrir isod hefyd yn cynnwys gwaith gyda phobl ifanc. Bydd y cyfarfod yn trafod gwaith gyda phobl ifanc a sut y gall yr holl gynlluniau unigol ymdoddi i gynllun gwaith y Tasglu. | Diane Hebb (ar ran Tasglu'r Celfyddydau a Phobl Ifanc ) |

| | |
|---|---|
| Addysg a Hyfforddiant (Addysg Gydol Bywyd o bosibl)<br><br>**Mae CCC o’r farn fod angen i hyn fod yn bartneriaeth gyda darparwyr hyfforddiant/ addysg a bydd yn anelu at sefydlu grwp llywio i ysgrifennu cynllun ar gyfer Cymru.*<br><br>Cyfarfod cychwynnol fydd y cyfarfod i drafod addysg a hyfforddiant lle bydd y sawl sydd â diddordeb yn y maes yn dod ynghyd i rannu gwybodaeth ynglyn â’r hyn y mae nhw’n ei wneud ac i nodi bylchau sydd angen eu llenwi. Nid oes cynllun drafft ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn, ac fe gaiff ei ddatblygu yn ystod blwyddyn 1 y strategaeth os penderfynir mai dyma’r ffordd ymlaen i gydlynu cyfleoedd addysg a hyfforddiant yn y celfyddydau. | Diane Hebb |

## Cynlluniau Gweithredu Arbenigol

| CYNLLUN GWEITHREDU | SWYDDOG ARWEINIOL |
|---|---|
| Celfyddydau a Chrefftau Gweledol | Ceri Jones |
| Cerddoriaeth | Simon Lovell-Jones |
| Dawns | Anna Holmes |
| Drama | Anna Holmes |
| Ffilm | Katherine Davies |
| Cyfalaf | Katherine Davies |
| Celfyddydau yn y Gymuned | Antony Owen-Hicks |
| Diwydiannau Creadigol | Rosemary Edwards |
| Arian o Ewrop | Rosemary Edwards |

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Rosemary Edwards |
| Cyflwyno | Ann Kellaway |
| Marchnata | Ann Kellaway |
| Llenyddiaeth | Tony Bianchi |
| Teithio Cymunedol | John Prior |

Yn y rhan fwyaf o'r meysydd, ond nid ym mhob un, bydd y swyddogion arweiniol sydd wedi ysgrifennu'r cynlluniau gweithredu yn hybu'r cynlluniau gweithredu. Lle trosglwyddir y cynlluniau i swyddogion arweiniol newydd fe geir blaengyfeiriad a throsglwyddiad cyflawn.

## Datblygiadau a Nodwyd ym mhob Cynllun Gweithredu

Isod ceir rhestri o'r datblygiadau a ystyrir ar hyn o bryd ar gyfer pob cynllun gweithredu. Ni chynhwysir cynnydd ariannu yn y cam hwn (yn fewnol mae swyddogion arweiniol yn ymwybodol o anghenion cleientau'r refeniw cyfredol ac fe drafodir y rhain yng nghyd-destun cyfarfodydd unigol i gytuno ar yr ariannu dros gyfnod y gwanwyn).

A wnewch chi sylwi nad yw'r crynodebau isod yn cynnwys ymrwymiadau penodol ynglyn ag anghenion ariannol y cyrff penodol sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth ariannol gan CCC. Fe fydd arian ar gyfer cyrff unigol yn cael ei gysylltu â'r datblygiadau a ystyrir, a mae nifer o'r cynlluniau'n cyfeirio at gadarnhau arian ar gyfer cleientau refeniw.

| CYNLLUN GWEITHREDU | DATBLYGIADAU O DAN YSTYRIAETH |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Y Gogledd | Datblygu Partneriaeth Datblygu Celfyddydau Strategol gyda CCC, awdurdodau lleol a chymuned gelfyddydol yn y Gogledd. Cadarnhau'r arian ar gyfer cleientau presennol. Hybu CCC a'r Sector yn y Gogledd yn arweiniol.<br><br>Datblygu Clwstwr o Ddiwydiannau Celfyddydol yn y Gogledd.<br><br>Ariannu Prosiect Hyblyg.<br><br>Cynnydd yn y ddarpariaeth ar gyfer teithio cymunedol. |
| Y De | Cymunedau'n Gyntaf: adeiladu cyfleoedd mewn cymunedau.<br><br>Prosiect Amcan Un i ddatblygu Cefnogaeth ('animateurs').<br><br>Cefnogi cais 'Caerdydd: Prifddinas Diwylliant 2008'.<br><br>Cefnogi lleoliad mawr newydd – refeniw i brosiectau cyfalaf.<br><br>Swyddi datblygu'r Celfyddydau ar gyfer pob awdurdod lleol.<br><br>Cytundebau partneriaethau awdurdod lleol/ CCC.<br><br>Cychwyniad i ddatblygu cynulleidfa'r Cymoedd.<br><br>Rhaglen Hyfforddi Celfyddydau Cymunedol Proffesiynol.<br><br>Datblygu Dawns Gymunedol i gwblhau'r rhwydwaith o ddarpariaeth.<br><br>Cefnogi datblygu celfyddydau amatur. |

| | |
|---|---|
| Y Canolbarth a'r Gorllewin. | Rhwydwaith o Swyddogion Datblygu Celfyddydau Cymunedol.<br><br>Cefnogi rhwydwaith o fannau i gyflwyno celfyddydau proffesiynol yn y rhanbarth.<br><br>Cefnogaeth i ddatblygu mathau traddodiadol o gelfyddyd.<br><br>Gweithgareddau Celfyddydol Tu Allan i Oriau ar gyfer pobl ifanc.<br><br>Cynllun datblygu cynulleidfa – ymestyn/ymrwymo.<br><br>Cynllun datblygu cynulleidfa – hyrwyddo.<br><br>Mentrau diwylliannol– (grantiau/benthyciadau; asiantaethau; amrywiol).<br><br>Cefnogaeth ar gyfer sefydlu Fforwm Celfyddyd ym mhob sir.<br><br>Datblygu Neuadd Gyngerdd Ranbarthol. |
| Y Celfyddydau a Phobl Ifanc | Datblygu cyfarwyddyd ar gyfer ysgolion ar ddyfeisio a rhedeg polisïau celfyddyd mewn ysgolion. Sefydlu broceriaeth leol a rhanbarthol ar gyfer celfyddyd mewn ysgolion.<br><br>Hybu cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer athrawon a llywodraethwyr ac ar gyfer artistiaid sy'n dymuno gweithio mewn ysgolion.<br><br>Dyfeisio a sefydlu strategaethau rhanbarthol ar gyfer darparu celfyddyd i bobl ifanc mewn modd cydlynus. Datblygu fframwaith a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant.<br><br>Celfyddyd y tu allan i oriau.<br><br>Cefnogi datblygiad rhaglen gelfyddyd ieuenctid genedlaethol.<br><br>Arolwg o fynychiant a chyfranogiadau.<br><br>Cyflwyno cynlluniau mynediad.<br><br>Creu/cynhyrchu perfformiadau/ arddangosfeydd/ digwyddiadau |

| | |
|---|---|
| | ar gyfer pobl ifanc. |
| Cyfleoedd Cyfartal ac Amrywiolaeth Ddiwylliannol. | Cefnogi cyrff strategol.<br><br>Gweithredu strategaeth ar gyfer amrywiolaeth ddiwylliannol. |
| Addysg a Hyfforddiant | Dyfeisio strategaeth dysgu gydol oes a chynyddu cyfleoedd celfyddydol mewn addysg i oedolion.<br><br>Cynllun gweithredu hyfforddiant heb ei lunio eto (gweler uchod) |
| Ymchwil | Heb ei lunio eto (gweler uchod) |
| Celfyddydau a Chrefftau Gweledol | Cadarnhau cefnogaeth i rwydwaith o orielau datblygiadol<br><br>Sefydlu corff cenedlaethol cynhwysfawr i wasanaethu buddiannau artistiaid yng Nghymru<br><br>Cryfhau Sector Celfyddyd Gyhoeddus<br><br>Cynyddu'r grant i gynorthwyo artistiaid a llunwyr gweledol unigol ar ffurf bwrsarïau<br><br>Cymorth i arddangosfeydd o gelfyddyd weledol a chrefft<br><br>Grantiau sy'n helpu i sefydlu cydweithio rhwng stiwdioau yng Nghymru.<br><br>Sefydlu cyhoeddiad(au) proffil uchel mewn celfyddydau gweledol a chrefft yng Nghymru. Ailsefydlu asiantaeth addysg celfyddydau yng Nghymru<br><br>Cefnogi comisiynu gweithiau celf a luniwyd yn arbennig, gomisiwn ar gyfer defnydd domestig, personol a busnesau bach. |

| | |
|---|---|
| Cerddoriaeth | Cynyddu cynulleidfaoedd mewn perfformiadau byw; hyrwyddo lefelau uwch o gyfranogi ac o addysg; gwella ansawdd Cerddoriaeth Siambr, Cerddoriaeth Gorawl, Cerddoriaeth ysgol; Cerddoriaeth Gymunedol, Cerddoriaeth Gynnar, Cerddoriaeth Werin a Thraddodiadol, Cerddoriaeth Fodern, Cerddariaeth opera a Theatr, Cerddoriaeth Gerddorfaol a Cherddoriaeth y Byd.<br><br>Datblygu rhwydwaith o ddarpariaeth o Gerddoriaeth Gymunedol yng Nghymru.<br><br>Darparu cefnogaeth refeniw greiddiol ar gyfer Cystadleuaeth Cantorion Cymru<br><br>Cynorthwyo Ffederasiwn Cerddoriaeth Amatur Cymru i ddatblygu cerddoriaeth ymhlith pobl ifanc yng Nghymru gyfan<br><br>Cefnogi'r ddarpariaeth leol drwy ariannu creiddiol (yn fwyaf tebyg drwy warantau yn erbyn colledion) i Glybiau a Chymdeithasau Cerdd<br><br>Cynyddu'r gefnogaeth i Wyliau.<br><br>Cynyddu gweithgarwch maes a ymestyn gwaith cymuned Cerddorfa y BBC ar hyd a lled Cymru. |
| Dawns | Cadarnhau a datblygu gwaith cwmni Diversions fel cwmni dawns genedlaethol Cymru.<br><br>Cefnogaeth ar gyfer cynnyrch wedi ei leoli yng Nghymru ac ar gyfer teithio sy'n dod i mewn, er mwyn ehangu'r ystod o gynnyrch sydd ar gael.<br><br>Cadarnhau cyrff cynhwysfawr strategol (Dawns Anibynnol Cymru a Dawns Cymunedol Cymru)<br><br>Cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer artistiaid anibynnol sydd wedi eu sefydlu (ariannu prosiect ar gyfer tymor penodol)<br><br>Cyfleoedd ar gyfer artistiaid newydd a'r rhai sy'n dod i'r amlwg er mwyn iddynt ddatblgu eu crefft |

| | |
|---|---|
| | Ymdrin â'r bylchau mewn darpariaeth (bale, gwyliau, dawns mewn addysg ayb)<br><br>Ariannu hyblyg ar gyfer partneriaethau creadigol |
| Drama | Cefnogi ysgrifennu newydd<br><br>Datblygu Theatr Gymraeg ei hiaith<br><br>Cefnogi cynyrchiadau cymhedrol a mawr Saesneg a'u cylchdeithio.<br><br>Cefnogi cwmnïau ac artistiaid unigol I'w cynorthwyo a datblygu cyfleoedd I artistiaid sy'n dod yn amlwg neu sydd wedi en sefydln.<br><br>Ehangu theatr gymunedol a theithiol.<br><br>Gweithredu cynigion adolygiad Theatr ar gyfer Pobl Ifanc ar sail yr archwiliad diweddar.<br><br>Cefnogi gwyliau a phartneriaethau creadigol<br><br>Ariannu hyblyg: bartneriaethau creadigol |
| Ffilm | I'w ffurfio'n derfynol mewn strategaeth gynhwysfawr drwy'r bartneriaeth gyda Sgrin. |
| Cyfalaf | I'w ffurfio'n derfynol mewn strategaeth gynhwysfawr |
| Diwydiannau Creadigol | Gweithio gydag Asiantaeth Datblygu Cymru i hyrwyddo datblygiad fforwm diwydiannau creadigol a chomisiynu astudiaeth fapio ar gyfer y sector. Darparu arian gydag ADC ar gyfer cefnogaeth fusnes ddigonol i'r sector |
| Arian o Ewrop | Gweithiwr Rhwydwaith Datblygu Prosiect Ewropeaidd<br><br>Datblygu gwasanaethau gwybodaeth. |

| | |
|---|---|
| Rhyngwladol | Cefnogi Celfyddydau Rhyngwladol Cymru<br><br>Datblygu gwasanaethau gwybodaeth.<br><br>Grant Celfyddydau Rhyngwladol Gwirfoddol |
| Cyflwyno | Cryfhau’r gefnogaeth i rwydwaith creiddiol o leoliadau cyflwyno (ar raddfa fach/ ganolog)<br><br>Cefnogi lleoliadau ar gyfer cyflwyno ar raddfa fawr<br><br>Adolygu cyllid rhaglenni Digwyddiadau’r Celfyddydau Perfformio<br><br>Cefnogi datblygiad Creu Cymru – asiantaeth gylchdeithio Cymru<br><br>Cylchdeithio dros y ffin<br><br>Adolygu Gwyliau<br><br>Adolygu Orielau |
| Marchnata | Cefnogi prosiectau marchnata/ datblygu cynulleidfa<br><br>Datblygu cychwyniadau cyd-farchnata/ consortia marchnata ar draws Cymru.<br><br>Sefydlu a chefnogi corff cynhwysfawr effeithiol ar gyfer Gwyliau Cymru. |

| | |
|---|---|
| Llenyddiaeth | Ehangu cynlluniau CCC ar gyfer llyfrau a chylchgronau i gynnwys yr holl gyhoeddi diwylliannol a chelfyddydol/electronig a thargedu meysydd a esgeuluswyd gan gyhoeddiadau llenyddol.<br><br>Cefnogi swyddi golygyddol, marchnata a gweinyddu mewn tai cyhoeddi Saesneg en hiaith, gyda chefnogaeth prosiect ar gyfer marchnata penodol/ cychwyniadau gwerthu.<br><br>Cefnogi hybu darllen, a grwpiau darllen yn arbennig mewn cyswllt ag awdurdodau llyfrgell.<br><br>Cadarnhau gwaith Llenyddiaeth Cymaeg Dramor a chefnogi cyfieithu llenyddol allanol.<br><br>Cynorthwyo i ddatblygu nawdd yng Ngwyl Llenyddol Y Gelli.<br><br>Cefnogi marchnata Ty Newydd<br><br>Cadarnhau a thargedu bwrsarïau ysgrifenwyr.<br><br>Cadarnhau gwaith mynediad a chyfrannu yr Academi Gymreig |
| Teithio Cymunedol | Ehangu Cynllun Teithio Cymunedol i gynnwys Cymru gyfan.<br><br>Cynyddu’r defnydd a wneir o’r cynllun hyd at lefel uwch na 300 y flwyddyn<br><br>Sicrhau fod gan y Cynllun y gallu i ymdopi ag ehangu’r galw i’r lefel ddisgwyliedig.<br><br>Ehangu argaeledd y cynhyrchion yn y Gogledd yn y ddwy iaith |

| | |
|---|---|
| Celfyddydau Cymunedol / Sector Diwylliannol Gwirfoddol | Cytundeb rhwng CCC a'r sector diwylliannol gwirfoddol.<br><br>Cynyddu cefnogaeth refeniw i bortffolio cyfredol cleientau Celfyddydau Cymunedol â £250,000<br><br>Arian ychwanegol i ehangu rhwydwaith sefydliadau celfyddydau cymunedol a gefnogir yn ariannol.<br><br>Hyrwyddo datblygiad darpariaeth o hyfforddiant proffesiynol ar gyfer ymarferwyr celfyddydau cymunedol.<br><br>Creu cynllun bwrsari CCC i gynnwys artistiaid cymunedol cymwys.<br><br>Cynyddu'r gefnogaeth i ddatblygu a chyfranogi mewn dawns a cherdd draddodiadol Gymreig.<br><br>Cefnogaeth i gyflwyno 'Camau Amserol' a hybu datblygiad proffesiynol di-dor i ymarferwyr dawnsio cymunedol. |

## Arolygu a Gwerthuso

Mae pedair elfen I ffordd newydd CCC o weithio:

- strwythur trefniadaeth newydd
- Strwythur staffio newydd
- set newydd o gynlluniau
- strategaeth newydd.

Bydd y rhain i gyd wedi'u gweithredu'n llwyr o 1 Ebrill 2002 ymlaen. (Fe fydd strwythurau trefniadaeth a staffio yn gweithredu o 1 Chwefror)

Gyda newid daw perygl a'r posibilrwydd na fydd pethau o bosibl ddim yn gweithio fel a gynlluniwyd. Er mwyn paratoi ar gyfer hyn mae CCC yn mynd i nodi'r peryglon hyn a'u corffori mewn cynllun arolygu a gwerthuso. Yn gyntaf bydd hyn yn cynnwys y strategaeth a'r drefniadaeth ac yn cynnwys targedau a mesurau llwyddiant yn ogystal â nodi peryglon.

Fe gynhelir yr arolwg a'r gwerthuso terfynol yn y gynhadledd flynyddol y bydd CCC yn ei

chynnal (mae'n debyg) ym mis Mai ym mhob blwyddyn. Ond gan ein bod yn cyflwyno cynifer o newidiadau ar yr un pryd ein bwriad yw arolygu'r gwaith bob chwarter yn ystod y flwyddyn gyntaf. Bydd CCC ynarolygn y cynnydd yn fewnol ond mae'n bwriadu sefydlu mecanwaith arolygu allanol.

## Arolygu Allanol

Yn ddelfrydol fe ddymunem weithio ar yr arolygaeth allanol drwy gyfrwng cyrff cynhwysfawr. Byddai'r swyddogaeth hon yn canolbwyntio ar arolygu:

- Cyflwyno gwasanaeth yn gyffredinol
- Rhoi cynlluniau newydd ar waith.

Fe fydd ymgynghori â'r grwp yma ar sail y targedau/ materion/ peryglon yn y cynllun arolygu.

Yn ail, ar gyfer pob cynllun gweithredu fe ddymunem weithio gyda chyrff cynhwysfawr ar weithredu'r meysydd penodol. Fe gynhwysai hyn arolygu mynediad at wybodaeth a chyngor arbenigol.

Mae'n bosibl y bydd y cyfarfodydd agored hefyd yn trafod arolygu a gwerthuso os bydd amser yn caniatáu. Os na cheir cyfle ar y dydd i drafod hyn fe geir amser digonol fel rhan o'r strategaeth ffurfiol gyffredinol ar ôl y Nadolig.

***Frances Medley***

Dirprwy Brif Weithredwr.